

The Em's

Y CANPUNT

COMEDI O GWM TAW.



GAN

MARGARET PRICE,
KATE ROBERTS.

A

BETTY EYNON DAVIES.



PRIS CHWE'CHEINIOG. SIXPENCE.

DREFNEWYDD :
THE WELSH OUTLOOK PRESS.



Y CANPUNT.

ADELINA (*mewn llais mursenaidd*): I'm sorry ma's not down. She always puts her feet up after dinner, and we didn't expect you so early.

(*Yn edrych ar FARI MYFANWY o'i phen i'w thraed tra yn siarad*).

JIM: Erbyn pedwar wedodd Modryb Mary Jane inni ddod, a mae'n hynny nawr. (*Yn edrych ar ei watch*).

ADELINA: Well, will you sit down, Miss Williams. I hope you'll excuse me not staying here with you, but I have to go and help ma to dress. You see, Blodwen, the girl, is in bed with a swollen face.

JIM (*yn ddiamynedd*): Siaradwch Gymraeg, ferch. D'yw Mari Myfanwy ddim yn deall llawer o Sysneg.

ADELINA (*gyda chwêrthin bach mursenaidd*): I'm afraid I've forgotten most of my Welsh, and I never did know much.

JIM (*o dan ei anadl*): Dyna gelwydd!
(MARI M. *yn eistedd i lawr ar ymyl cadair ac ADELINA yn edrych o'i chwmpas*).

ADELINA: Here's an album. I think there are some photos of the family in it you might like to see, or perhaps you would like to look at this "Views of Llanelly."

JIM: O, fyddwn ni yn all right. Mi wnawn ni'n hunen yn gartrefol.

(ADELINA *yn mynd allan*).

MARI M. (*yn rhoi ochenaïd o ryddhad*): Un felna yw 'i mam?

JIM: O, dyna 'i ffordd nhw. Mae'n dda gen i bod hi wedi'n gadel ni wrth yn hunen, achos mae ishe arna i ichi gael golwg dda ar y rwm 'ma.

(MARI M. *yn codi ac yn cerdded o gwmpas i edrych ar y pethau yn yr ystafell*).

MARI M.: O, dyna grand! Mae'n raid bod nhw'n gyfoethog:

SCENE.—*Drawing room yn nhy MRS. DAVIES, wedi ei dodrefnu yn wych gyda chlustogau, lampshades paintings ar y mur dau fwrdd bychan wedi eu hulario ag ornaments, sofa. Ar y mur mae darlun o ddyn sydd ymlaen mewn dyddiau.*

AMSER.—*Rhwng pedwar a chwech yn y prynhawn.*
(ADELINA—*wedi ymwisgo yn hardd er mwyn yr achlysur—yn agor drws y drawing room i JIM DAVIES a MARI MYFANWY—y ddau yn eu dillad dydd Sul, MARI M. yn gwisgo het a phlufen wedi ei gosod arni ar osgo ryfedd, a gwisg o liw goleu-tarawiadol. Mae'n gwisgo esgidiau uchel a menyg tywyll am ei dwylo*).

JIM (*yn prwyntio at y darlun*): Dyna n'ewyrth Richard. Odd e'n gwbod ffordd i neud arian, ta beth. Dechreuodd fel bachgen negesi heb ddim ysgol, ac yn awr edrychwch ar y lle 'ma i gyd! (*yn troi ei fraich o gwmpas*). Mor wahanol i nhad druan. 'Rodd n'ewyrth yn ddyn clefer iawn. Gallai werthi ham i Iddeu; ond am fy nhad, 'rodd gan i arian e adennydd.

MARI M. (*yn codi ornament i fyny ac yn edrych arno*): O, drychwch, Jim, ond yw hwn yn bert?

JIM: Er mwyn popeth! dodwch hwnna i lawr. 'Rych yn siwr o'i dorri e.

MARI M. (*yn edrych arno yn syn*): Beth sy' mater arnoch chi? (*Rhydd yr ornament i lawr*).

JIM (*yn edrych arni o'i phen i'w thraed fel pe na byddai ei gwisg wrth ei fodd*): Dyna dreni i chi ddodi'r hat yna lan. 'Rwi'n siwr y bydde Modryb Mary Jane yn meddwl y bydde'r sailor hat 'na yn ych taro chi'n well.

MARI M.: Diws anwyl! Alla i ddim gwishgo beth wi'n lico, (*Mewn ton ddigalon*) 'Rown i'n meddwl ych bod chi'n wastod yn lico'r hat hyn.

JIM: 'Sh-sh-sh! Pidwch a iwso'r gair yna o flan Modryb Mary Jane. Fydd hi'n ffilu deall lle gesoch chi'ch magu.

MARI M.: Pwff! Geso' i'n magu yn well na hi ta beth! Dim ond yr hen Ddaniel Trwyn Coch oedd i thad hi, wedi'r cwbl.

JIM (*wedi dychryn*): Pidwch a siarad felna. Mae miloedd o bunnau gyda Modryb Mary Jane.

MARI M. (*yn uchel ei ffroen*): Lwc na chafodd i thad ddim gafael ynddyn nhw i roi rhagor o baent ar ei drwyn!

JIM: O ddifri nawr, Mari Myfanwy, rwi'n moyn ichi gofio popeth rwi wedi weud wrthoch chi, achos 'rwi'n moyn i chi neud argraff dda ar Modryb Mary Jane. Pidiwch ag edrych mor nervous, ferch!

MARI M. (*yn chwarae gyda'i menyg ac yn edrych yn anghysurus*): Mi 'naf fy ngore, Jim. Beth wedsoch chi wrtho i?

JIM: 'Stim dress arall gyda chi?

MARI M. (*mewn syndod*): Dim ond un ddu wi'n wishgo mewn angladde.

JIM: Treni na fyddech chi wedi dod hono mlan. Fyde hi ddim yn dishgwyl mor—mor—

MARI M. (*yn frathlyd*): Beth?

JIM: Flighty!

MARI M. (*yn edrych yn sur*): O!

JIM (*yn edrych yn anfoddog ar ei thraed*): Dyna'ch sgitshe gore chi?

MARI M. (*yn edrych arno mewn syndod*): Beth yw hynny i chi?

JIM: Dim. Ond ro'n i'n meddwl y bydde Modryb Mary Jane yn meddwl y bydde nhw dipyn yn glumsy i'w drawing room. Dyna dreni na ddodsoch y rhai arall!

MARI M. (*yn gŵta*): Allse 'ni ddim. Oe'n nhw wedi mynd i gael i tapo. Os nag yw nillad i digon da i'ch hen fodryb Mary Jane, well i fi fynd sha thre'. Ma'r traed sy'n gwishgo'r sgitshe hyn lawer yn well na thraed merch yr hen Ddaniel Trwyn Coch. 'Rwi ddim yn mynd i aros yma i gael fy sengi dan drad.

(*Cyfyd ei scarf ac â tua chyfeiriad y drws.*)

JIM (*yn ei dilyn*): Mari fach, arhoswch. Dim ond moyn i narpar wraig edrych i gore'w i. Mae hynny yn ddigon naturiol.

MARI M.: Allwch chi weud hynny!

JIM (*yn cydio yn ei braich*): Dewch 'nol. Ych 'chi ddim yn moyn towli canpunt bant, odi chi?

MARI M. (*yn wawdlyd ac yn stopio*): Canpunt? Pwy ganpunt? Odi'ch modryb yn mynd i roi canpunt i fi am wishgo y'n sailor hat, a'n dress ddu, a'n sgitshe gore? Nonsense!

JIM (*yn ddirifol*): Odi chi'n moyn inni briodi, Mari Myfanwy?

MARI M.: Wrth gwrs Pidiwch a bod shwd ffwl!

JIM: Wel, brodwn ni byth os na allwn ni gael y canpant mas o Modryb Mary Jane.

(*Maent yn symud yng nghyfeiriad y sofa*).

MARI M. (*gyda mwy o ddiddordeb*): Beth yw y canpant 'na ych chi'n son am dano? Pam na wedsoch chi wrtho i am dano o'r blaw?

(*Mae'r ddau yn eistedd ar y sofa*).

JIM: Oe'ni ddim moyn y'ch gwneud chi yn nervous.

MARI M.: Cerwch ona, chi a'ch sgitshe, a'ch hat sailor, a'ch dress ddu! Gwedwch wrtho i ar unwaith. Oes ar ych modryb ganpant i chi?

JIM: Wel, dim yn gwmws. Ond fe addawodd 'newyrth Richard i nhad druan y rhoise fe start imi, ond odd e ddim wedi doddi hynny yn i wyllys.

MARI M.: Y hi gadwodd e mas!

JIM: Ond pan oedd e ar i wely ange gofynnodd i modryb roi canpant i fi, a gwnath iddi addo hynny o flaw Mr. Jones, Siloh, a thri o'r blaworiaid, a 'newyrth Rhys, a Mrs. Evans, a mam.

MARI M.: A 'dyw'r hen scriw ddim wedi talu nhw eto?

JIM (*yn ddigalon*): Nag yw.

MARI M.: Falle na wnaiff hi ddim nawr.

JIM: Fydd raid iddi rywbyrd, achos fe glywodd y bobl hyn i gyd, a bydd arni gwiddyl bido. A'r unig beth sydd ofan arna i yw iddi gadel nhw imi yn i hewyllys, a dos dim golwg marw'n gloi arni—'dyw hi ddim ond hanner cant nawr.

MARI M. (*yn wangalon, ond mewn llais uchel*): A mi fu Mari Daniel Trwyn Coch fyw i fod bedwar ugen!

JIM: 'Sh-sh-sh! Pidwch a gweiddi ne falle clywe nhw chi.

MARI M.: Pam 'ych chi wedi bod mor hir heb drio cal y canpant?

JIM: Mae mam wedi bod yn trio o ar pan own i yn ddeuddeg. 'Roedd hi'n moyn hala fi i'r County; ond d'oedd e ddim iws. Allse'n fod yn teachio 'na erbyn hyn.

MARI M.: O, dyna hen fenyw glos yw hi!

JIM: Fasen haws symud y Darren na chal arian oddiwrthi hi.

MARI M.: 'Stim o hi wedi rhoi dim i chi?

JIM: Blwyddyn wedi marw 'newyrth, a'th mam i ofyn iddi am y canpant, ond wedodd hi i bod yn rhy dorcalonnus i feddwl am fusnes, yn enwedig busnes y 'newyrth. A 'rodd hi fel yna am dair blynedd.

MARI M.: A fase ni'n rhyfeddu dim i bod hi'n mynd bob dydd Sadwrn i Abertawe i'r theatre, a thair gwaith yr wthnos i'r pictiwr.

JIM: A mae mam yn mynd bob cwarter i'w hadgoffa hi, ond yn lle'r arian mae'n rhoi presents ifi—un bob Nadolig, ac un ar fy mhenblwydd.

MARI M.: Beth ma hi wedi roi i chi?

JIM: Dyna'r watch 'ma (*yn tynnu ei watch allan*).

MARI M. (*yn edrych arni yn waredlyd*): Ingersoll's, Coron. Yn mynd bob tro ych chi'n mynd.

JIM: Dyma'r hancsher shidan 'ma (*yn tynnu allan ei gadach poced*).

MARI M.: Shidan yn wir! Mercerised.

JIM: Rhos rhyw lyfr imi hefyd. "Life of Spurgeon" oedd i enw e.

MARI M.: Oedd hwnnw ddim yn newydd pan gesoch chi e. Gweles fod yr enw wedi cael i rwbo mas.

JIM: Wedyn, dyna'r tie—a'r—photo frame—a'r—box matches—a'r—pwrs sofrin, a'r llun Queen Victoria, a'r—

MARI M. : Pwff! Lot o hen rwbish wedi i prynnu yn Woolworth's. Oen ni wedi bod yn rhyfeddu lle cesoch chi nhw.

JIM : O ie—a photel o beth i dyfu gwallt.

MARI M. : Mae digon o wallt 'da chi to beth, heb yr hen stwff 'na. Falle taw peth ar ol ych ewyrth oedd e.

JIM : Cerwch ona, ferch. Fyse diacon dim yn iwso stwff fel na.

MARI M. : Wi i ddim yn gwbod, Jim Davies. Rwi'n meddwl withe fod diaconied r'un peth a rhyw bobl arall, just fel chi a finne, ac yn colli i gwallt fel pobl arall. Ond pam ych chi'n meddwl y bydd hi'n rhoi y canpunt nawr?

JIM : Wel, pan ath mam i weld Modryb Mary Jane Nadolig dwetha, gwnath iddi addo rhoi y canpunt i fi i ddechreu cadw ty pan briodwn.

MARI M. : Wel, mae hynny'n all right, odi e ddim?

JIM (*yn ddiysbryd*) : Odi, ond ar yr amod i bod hi yn lico'r ferch.

MARI M. (*yn ostyngedig*) : O, ych chi'n meddwl y bydd hi yn fy lico i?

JIM : Wel, mae hynny'n dibynnu arnoch chi.

MARI M. : O! (*Yn drist*) Dyna dreni i chi newis i, Jim.

JIM : O dyna nonsense, Mari fach. (*Yn rhoddi ei fraich am dani*). Gwell 'da fi'ch cal chi heb y canpunt na'r canpunt heboch chi.

MARI M. : Ych chi'n siwr, yr hen gariad? Beth wnawn i pan gawn i e?

JIM : Wel, ych chi'n 'nabod Dai Jones, Cwmllynfell? Mae e'n meddwl starto Cinema lan yn Clare Road, a mae e'n moy'n ifi sentro tipyn o arian ynddo. Ond oes dim gyda fi i spario os na allwn i gal e mas o Modryb Mary Jane.

MARI M. : O, Jim, ych chi'n meddwl fod e'n šaff?

JIM (*yn frwdfrydig*) : Saff? Odi. Pam, dyna ni wedi gwneud ein ffortiwn os allwn ni gal gafel yn y canpunt'na. Edrychwch nawr ar y Royal. Mae'r bechgyn startodd y Cinema 'na wedi gwneud tunelli o arian, a Dai Jones yw'r bachgen smarta' yn y Cwm. Byddwn yn gallu cael drawing room fel hyn un diwrnod ryfedde ni ddim.

MARI M. : O, Jim, alla'i gredu hynna?

JIM : Allwn gadw morwyn, a falle gawn ni motor bike a side car!

MARI M. : Pidwch a chyfri'ch cywion cyn bod nhw'n dod lawr, machgen i. Mae'r canpunt gyda'ch modryb hydyn hyn.

JIM (*yn ochneidio*) : O, ie, rhaid ifi gofio hynny.

MARI M. : Falle bydde'n well i chi weud wrtho i swd i bleso'ch modryb.

JIM : Wel, yn enw popeth, pidwch a gweud gair am ych bod yn Fethodist, all hi ddim godde i gweld nhw o ar y Bazaar 'na.

MARI M. (*yn frwd*) : Mae'r Methodistiaid cystal a neb, ac yn well na rhai pobl fel y—

JIM (*yn torri ar ei thraws*) : Odyn, odyn, ond meddwl di am y canpunt, Mari fach.

MARI M. : O, ro 'ni wedi anghofio. Cerwch ymlan.

JIM : A chymrwch ofal na wedwch air am y ty newydd 'na yr ochr arall i'r hewl.

MARI M. : Pam?

JIM : Achos taw Ezra Morgan sydd yn i fildo fe a'r arian gas e ar ol i ewyrth William, a 'rodd i wraig e yn arfer bod yn forwyn yma. Y mae Modryb Mary Jane yn cadw'r blinds lawr rhag iddi weld e.

MARI M. (*yn wawdlyd*) : Peth od nag yw hi'n byw yn y back!

JIM : A chofiwch pidwch gweud dim am rhubarb wine—nag am Woolworth's—nag am scadenyn coch—nag am bazaars—nag am Daniel Trwyn Coch.

MARI M. : Ond am beth ga i siarad, te?

JIM : Nid am y pethe yma, ta beth. A ma'n rhaid i finne hefyd beidio i galw hi yn "Modryb Mary Jane." All hi ddim godde hyny. Mae hi yn dishgwll i fi i galw hi yn "Auntie Mary."

MARI M. : Falle fydde'n well ifi gaead y mhen.

JIM : O, raid i chi siarad, a falle se'n well i chi gadw ych traed o dan y sofa yn lle bod hi'n notishio ych sgitshe.

MARI M. (yn tynnu ei thraed yn sydyn dan y sofa) : Pidwch a siarad rhagor am yn sgitshe. Mae nhw dri size yn llai na sgitshe yr hen Adelina 'na.

JIM (yn gwynfannus) : Ond y canpunt, ynghariad i !

MARI M. : O, ie, roe'n i wedi anghofio yr hen ganpunt. Pe baech yn gofyn imi lyncu'n hat am y canpunt 'na, bydde rhaid i fi neud hynny.

JIM : Meddylwch am yn cartre bach ni, Mari fach.

MARI M. (yn curo ei dwylo ynghyd mewn gorlawenydd) : O, ie !

JIM : O, ie, peth arall. Raid i chi weud rhwbeth neis am bictiwrs Adelina. Fydd hynna yn pleso Modryb Mary Jane yn fwy na dim. A mae nhw'n rhai pert hefyd, chware teg.

MARI M. (fel pe byddai'n dwedyd cyfrinach) : Fyse'n i ddim yn rhyfeddu bod eich modryb ishe chi iddi Hadelina.

JIM (wedi dychryn) : Cato'n pawb, na ! Rhyw sar fel fi ! (Yn plygu yn agos ati ac yn siarad mewn ton gyfrinachol) : Ych chi'n nabod Sam Price sy' hia Gwaith Glo Cors-y-Bryniau ?

MARI M. (yn dechreu chwervthin) : Pwff, yr hen fflirt mawr 'na.

JIM : 'Sh-sh-sh ! Mae gan welydd glustie. Mae hi wedi bod yn rhedeg ar i ol e, o ar bod y gwaith wedi dechreu talu i ffordd.

MARI M. : Pwy wedodd wrthoch chi ?

JIM : Mam. Mae Modyrb Mary Jane bron a marw ishe i gal e fel mab yn nghyfreth, yn enwedig nawr fod motor car ganddo, ond yn ol y marn i, mae e'n dderyn rhy hen i ddal.

MARI M. (yn chwervthin) : Odi'n wir ! Mae e'n cael dipyn o sport gyda'r merched. Pam, y ffair ddwetha i gyd, fe tretodd fi ar y Gondolas, ac i Show y Lions, a phrynnodd brandy snaps i fi, ac Ystalyfera Rock, a grapes, a 'rodd e mor garedig pan bigodd pigwnnen fi.

JIM (yn edrych yn ddu) : Tro cynta i fi glywed am hynny !

MARI M. : Pwff, paid bod mor jealous. Beth oeni i neud ? Alle chi ddim dod gyda fi. A pheth arall, 'rodd e mor neis !

(JIM yn troi ei wyneb ymaith ac yn edrych yn guchiog. MARI M. yn troi ei golwg arno unwaith neu ddwy).

MARI M. : O, all right ! Mae mwy o bysgod yn y mor nag a ddaliwyd. (Yn tynnu ei hat i ffordd). Falle fydde'r plyfyn yn edrych yn fwy genteel pe bawn i'n ddodi e dipyn yn ish lawr. Dim ond wedi i binno mae e.

(Mae'n codi ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad y drych uwchben y tan. Rhydd yr het ar gadair, a dechreu dacluso'i gwallt o flaen y drych. Tra mae hi wrthi daw MRS. DAVIES i mewn, yn gwisgo gwn sidan du, locedi a chadwyni aur, etc. Dilyniir hi gan Adelina. Saif MRS. DAVIES yn y drws i wyllo MARI M. Mae JIM mewn cyni).

MRS. DAVIES (dan ddyfod i mewn) : O, James, so you've brought your friend ?

(MARI M. yn troi).

JIM (yn sefyll i fyny) : Oh—Modryb Mary Jane—Auntie Mary ! Dyna Mari Myfanwy Williams.

MRS. DAVIES : How do you do, Miss Williams ? (Yn ysgwyd dwylo. Ni ddawed MARI M. ddim).

MRS. DAVIES (*yn oeraidd*): I'm glad you've made yourselves at home. Adelina, take Miss Williams's hat upstairs. There's nothing so untidy as clothes lying about the drawing-room.

(*Mae ADELINA yn mynd gymeryd yr hat, ond cipia MARI M. hi, dyry'r blufen arni yn gam, ac yna rhydd hi am ei phen.*)

JIM (*yn gynhyrfus*): Dim ond dod i gwallt yn i le odd Mari Myfanwy.

MRS. DAVIES: Please sit down, Miss Jenkins.

(*ADELINA yn mynd allan.*)

MARI M.: Williams. (*Yn eistedd ar y sofa wrth ochr JIM.*)

MRS. DAVIES: Oh, yes, Williams (*seibiant lled-chwith*). Have you visited this neighbourhood before, Miss Williams?

MARI M. (*mewn dychryn*): I—I—not—

JIM (*yn gyflym*): 'Dyw Mari Myfanwy ddim yn siarad llawer a Sysneg, Modryb Mary Ja—Auntie Mary. Mae hi'n dod o Cwm Llyffannod. Fysech chi mor garedig a siarad yn Gymraeg, os gwelwch yn dda?

MRS. DAVIES (*mewn syndod*): Dim yn siarad Sysneg? Dyna beth od! Fel arall mae hi 'da Adelina. (*Yn ymfalchio*). Mae ofan arna i bod hi wedi anghofio rhan fwy o'i Chymraeg o ar pan a'th hi i'r private school—The Ferns, Porthcawl. Odd Miss Emmeline Dalrymple Jones byth yn gadel i'r merched siarad Cymraeg. Odd hi'n meddwl fod Sysneg yn fwy genteel.

JIM: O, yn wir?

MRS. DAVIES: Ydych chi wedi bod y ffordd hyn o'r blan, Miss Williams?

MARI M. (*gydag atal-dweyd*): Fues yma unwaith mewn Cyrddde Mawr gyda'r Methodistiaid, a geson bregethe da iawn. Mae pregethwyr da gyda'r

Methodistiaid. (*Yn stopio yn sydyn ac yn rhoddi ei llaw ar ei genau.*)

(*JIM yn edrych yn druenus i'r eithaf. MARI M. yn edrych arno yn erfyniol.*)

MRS. DAVIES (*yn anfoddog*): Felly wir?

JIM (*yn anobeithiol*): Mae pregethwyr da iawn gyda'r Annibynwyr hefyd.

(*Seibiant anghyffyrddus, a rhydd MARI M. ei thraed allan. Ar ol ceisio cael ei sylw drwy besychu rhydd JIM bwriad i MARI M. Mae hithau yn dychryn ac yn taro ei thraed yn ol dan y sofa.*)

MRS. DAVIES (*yn edrych o gwmpas ar y muriau fel pe'n chwilio am ryw beth i siarad am dano*): A ydych chi'n paento, Miss Williams?

MARI M. (*yn rhwbio ei grudd*): Nag w i.

MRS. DAVIES (*yn ymfalchio*): Mae Adelina yn paento yn spendid.

MARI M.: Mae digon o liw 'da fi yn naturiol. (*Yn doddi ei llaw ar ei genau*) O!

MRS. DAVIES (*yn ffroenuchel*): Meddwl am bictiwrws yr oen ni. Baentodd Adelina y pictiwrws hyn i gyd mewn mish. (*Yn pwyntio at y darluniau ar y mur.*)

JIM: Mae hi bound o fod yn glefer!

MARI M. (*yn pwyntio at un*): Dyna un pert yw hwnna! Beth yw e?

MRS. DAVIES: Dyna bainting o Aber Falls. Bain-todd Adelina hwnna pan oedd hi lan yn North Wales yn aros gyda Miss Rowlands, merch Mr. Rowlands, J.P., ffrynd mawr i Lloyd George. Miss Rowlands odd i ffrynd mwya hi yn y Ferns. Mae 'da nhw olwg fawr ar Adelina yng nghartre Miss Rowlands. O, dyna bobl genteel, neis ŷ nhw. (*Gyda phwyslais*). A thri motor car!

MARI M. (*yn edrych ar y darlun*): Mae'n bert hefyd. Weles un yn gwmws 'run peth yn Ben Evans, a 'rodd e'n costu 9s 11d. (*Yn cofio*). O—o!

MRS. DAVIES (*yn flin*): 9s 11d yn wir! Halodd Adelina un fel 'na i ryw Fazaar, a 'rodd wedi i farco yn bum punt, a 'rodd Mr. Sam Price yn gweud fod hynny'n lawer rhy chep, i fod yn werth degpunt.

MARI M. (*gan gymryd arni fod yn ddiniwed*): Brynodd Mr. Price e?

MRS. DAVIES: Naddo. 'Dyw e ddim yn moyn pictiwrw etc. (*Yn gwenu yn arwyddocaol*).

JIM: Mr. Sam Price o Gors-y-Bryniau?

MRS. DAVIES: Ie, ie. Mae e'n dod yma mor fynych, mae e fel mab i fi. Wn i ddim beth fydde ni neud hebddo fe. Mae'n help mawr i fi gyda materion busnes. Ych chi'n gwbod, mewn lle fel hyn mae dynon yn meddwl bod gwidw dlawd fel fi wedi i gwneud o arian. Gofyn, gofyn yw hi o hyd, a rhyw gasgliad byth a hefyd. Rodd Richard druan lawer rhy garedig, a mae pobl yn dishgwl i fi gadw mlan yr un ffordd. Y dydd o'r blun, ofynson i fi roi pumpunt at Gapel Siloh, a wedes i wrthyn nhw wir nag odd hi ddim mor hawdd i ddodi 'ch law ar bumpunt ag oeddyn nhw yn meddwl. Ond fel wedes i o'r blun mae Mr. Price yn dda iawn, ag yn wastod yn folon rhoi cyngor i fi mewn materion fel hyn.
(MARI M. a JIM *yn edrych ar ei gilydd yn anobeithiol*).

JIM: Dyna fotor car neis mae e wedi i brynnu nawr.

MRS. DAVIES (*yn bwysig*): Ie. Jolls-Joyce yw e—y car mwya expensive alle neb gal. Mae Adelina yn wastod yn gweud wrtho i mor gyfforddus mae e—cushions o plush, a silver vase i ddodi y blode, a chloc bach—dyna glefer mae dynon 'nawr! Mae Adelina wedi bod sawl gwaith 'da fe yn y motor. Mae'n gweud i fod e'n gallu drifo yn splendid. (*Yn frysiog*). Ar yr un pryd, mae chauffeur 'da fe.

MARI M. (*wrth JIM*): Y Mr. Price yna glywsom ni yn canu yn y concert ym Mhontardawe?

JIM: Ie, dyna fe.

MRS. DAVIES: Ie, mae llais beautiful 'da fe. Mae e ag Adelina yn fynych iawn yn canu duets mewn concerts. Mae i lleise nhw yn siwto i gilydd i'r dim. Mae Adelina yn gweud fod i lais e yn debyg iawn i lais Ben Davies, ond i fod e lawer yn well. Mae mwy a deimlad ynddo fe, ac i fi teimlad yw popeth. Dyna beth mae Adelina 'n feddwl hefyd, a mae hi'n gwbod dipyn am ganu achos fe gafodd hi y music masters gore yn y wlad pan odd hi yn y Ferns.

MARI M.: Mae'n neis i allu canu.

MRS. DAVIES: Mae e'n dod yma heno i gal practice. Mae nhw'n mynd i ganu duet mewn concert cyn bo hir—(*yn ymfalchio*)—mas o Opera Italian. Mae e'n wastod yn ol ac ymlan yma. Mae ofan arna i y bydda i'n colli fy merch fach un o'r dyddie nesa yma.

MARI M.: Odyn nhw wdi 'mygagio?

(*Swn llestri te oddi allan*).

MRS. DAVIES: We—e—y (*yn nodio at y drws*). 'Sh—sh!

(ADELINA *yn dyfod i mewn gyda tray a lliain*).

MRS. DAVIES (*wrth Adelina*): Druan fach, ych chi wedi blino, yn siwr. (*Wrth FARI M.*): Ych chi'n gwbod, 'dyw hi ddim wedi arfer a gwaith ty. Ond fel ma'n digwydd, mae Blodwen, y forwyn, yn y gwely. Mae' i gwyneb hi wedi hwyddo. Wir, rw i'n meddwl withe i bod hi yn i neud e yn bwrpasol. Ond, dyna fe, mae nhw'i gyd fel na, yn meddwl am ddim ond am i pleser i hunen.

(*Yn y cyfamser, rhydd ADELINA y tray ar un bwrdd bach, a'r lliain a'r cwpanau ar y llall*).

MRS. DAVIES: Yn ni'n wastod yn cal yn te fel hyn nawr. Mae e lawer mwy genteel. Yn nhy y Rowlandses d'yn nhw byth yn meddwl am eistedd lawr wrth y ford i gal te.

MARI M. (*yn syn*): Nag ŷn nhw, wir?

MRS. DAVIES (*wrth ADELINA*): A gesoch chi'r tea-cakes o shop Jones?

ADELINA : Do, mae nhw lawr yn y gegin.

(ADELINA yn mynd allan ac yn dyfod yn ol gyda phlat bara menyn a theisen ar stand. JIM a MARI M. yn dechreu edrych yn gynhyrfus. MRS. DAVIES yn tywallt y te, a thra mae hi wrthi edrych MARI M. ar JIM yn awgrymiadol, a nodia arno. Saif ADELINA wrth y bwrdd).

JIM (yn gynhyrfus, ac yn clirio ei wddf) : Modryb Mary Ja—y—y—Auntie Mary-y 'ry'n ni'n falch iawn i glywed am Adelina a Mr. Price—y—y achos mae Mari Myfanwy a fi wedi bod yn meddwl—y—y—yn meddwl—am ddechre cadw ty gyda'n gilydd, cyn bo hir.

MRS. DAVIES (yn edrych i fyny mewn syndod) : O yn wir, odi chi wedi cal rhiw job arall, achos rhaid i chi gal rhywbeth i fyw a chadw ty—a dyna 'ch mam hefyd?

JIM : Wel, mae Dai Jones o Cwmllynfell—ych chi'n nabod i dad e'n dda iawn—yn meddwl agor Cinema lan yn Clare Road. Mae e'n barnu fod e'n le splendid am fusnes, a mae e'n gweud os investa i ganpant yn y busnes, fydd e'n siwr o dalu hanner cant y cant.

MRS. DAVIES : A, ond ŷch chi ddim yn ffido canpant yn tyfu ar bob draenen y dyddie yma. Fyfe'n dda gen i allu dod fy llaw ar ganpant. Siwgr a llaeth, Miss Williams?

MARI M. : Odw, os gwelwch yn dda.

(ADELINA yn pasio cwpan i FARI M., ac un i JIM Ceisia JIM ddal ei gwpan a'i soser a'i blat ar ei lin, ond rhydd i fyny'r ymdrech, a dyry ei gwpan a'i soser ar lawr wrth ei ymyl, gan godi Deil MARI M. y cwbl ar ei glin gydag anhawster. Rhydd MRS. DAVIES ac ADELINA yr eiddynt hwy ar y bwrdd).

ADELINA (gan estyn y stand) : Pun gymrwch chi, seed cake neu deisen whinberry?

MARI M. : Tipyn o dishen, os gwelwch yn dda.

(ADELINA yn mynd a'r teisennau i JIM, a chymer ef damed o'r deisen arall).

JIM : Ond—y Auntie Mary—y—'roe'n ni'n gobeitho—y—

MRS. DAVIES (yn torri ar ei draws) : 'Rych chi lawer rhy ifanc i feddwl am briodi. Fyddwch wedi newid ych meddwl mhen wech mis ynghynta, a fyddwch ych doi wedi cwmpo mewn cariad a rywun arall erbyn Nadolig nesa.

JIM (mewn tymer) : Na—dim a neb byth—ond Mari Myfanwy !

(Mae MARI M. yn ystod yr holl amser hwn a'i holl feddwl ar ddal ei phlat, ei chwpan, a'r deisen).

MRS. DAVIES : A ! dyna beth ych chi'n feddwl nawr, ond fyddwch yn siwr o newid ych meddwl. Faint yw'ch oedran chi, Jim?

JIM (yn gŵta) : Dwy ar hugen, Modryb.

MRS. DAVIES : O, lawer rhy ifanc. A chithe, Miss Williams?

MARI M. : Un a'r hugen.

MRS. DAVIES : Wel, dim ond plant ych chi. Briodes i ddim nes own i'n naw a'r hugen, a digon cynnar hefyd. 'Does dim syniad gyda chi beth yw cadw ty.

MARI M. : Ond 'rwi wedi cadw ty nhad er pan own i'n beder a'r ddeg.

MRS. DAVIES : Beth oedd hynny, Miss Williams fach?

JIM : Mae Dai Jones yn gweud na fyddai ddim yn debyg o gal shwd chance eto. A 'dwi ddim moin i golli e.

MRS. DAVIES : Fae'n dda gen i allu rhoi canpant yn y Cinemas 'na, er 'dyw Mr. Price ddim yn meddwl llawer o honyn nhw fel investment, ych chi byth yn gwbod ffordd tro nhw mas. Beth wyddoch chi, falle fydd Diwygiad—a gobeitho bydd e, medda i, mae digon o'i ishe fe—a ble fydd eich Dai Jones chi wedyn?

JIM: Dim llawer o ddanger i hynny ddigwydd, Modryb. Edrychwch ar—

(*Yn y fan yma mae plat MARI M. yn llithro i lawr addiar ei glin a phan yn ceisio ei ddal, gollynga ei chwpan, a chyll y te ar y carped*).

MARI M.: Diws! Dyna fi wedi gneud hi nawr!

MRS. DAVIES (*yn codi ac yn gwaeddi mewn cynnwrf*): Adelina, Adelina; rhedwch, rhedwch i moyn clwtyn o'r gegin, a dewch a'r botel ammonia gyda chi.

(ADELINA *yn rhuthro allan*. MRS. DAVIES *yn dechreu sychu'r te a'i chadach poced*. MARI M. *yn sefyll yn ymyl, yn edrych yn druenus*).

MRS. DAVIES: Carped ych tad druan a gostodd gyment iddo yn Shop Ben Evans. Talodd gyment a deg punt am dano, druan o hono.

JIM: Wel, Mari Myfanwy!

MRS. DAVIES: A 'rwi'n siwr nag wi ddim yn gwbod shwd i gal un arall a meddwl gyment o arian rwy'n gorfod dalu mas ddydd ar ol dydd.

(ADELINA *yn dyfod i mewn gyda'r clwtyn a'r botel*).

ADELINA: O, ma, mae'r carped wedi spwylo! Gawn i'r stain bant byth.

MRS. DAVIES: Na chawn wir, a Mr. Price yn dod yma heno, a chwbl. Beth wnawn ni?

(ADELINA *yn penlinio ar lawr ac yn cynorthwyo*).

MRS. DAVIES *yn codi i fyny*).

ADELINA: Odd Miss Dalrymyle-Jones yn wastod yn disgusted iawn os bydde un o'r merched yn colli i the ar y carped.

MARI M.: O, mae'n flin iawn genni! Alla i'ch helpu chi?

MRS. DAVIES: Na allwch. All neb neud dim. Mae wedi spwylo nawr. Adelina, well i chi sychu gwn Miss Williams.

(ADELINA *yn sychu gwn MARI M.* JIM *yn rhoi ei chwpan a'i soser ar y bwrdd ac yn ceisio trefnu'r lle*).

JIM: Dyna fe. Mae'n all right nawr, Auntie Mary. Dyna beth sy'n dod o gael te fel y Rowlandses!

(A JIM *i eistedd ar gadair yr ochr arall i'r ystafell gyferbyn a'r sofa*. MRS. DAVIES *yn eistedd wrth y bwrdd eto, ac ADELINA wrth ei hochr*. Eistedda MARI M. *ar y sofa*).

MRS. DAVIES: Ie, 'n enwedig os nag ych chi wedi arfer a manners dynon neis. A gymrwch chi ddish-gled arall, Miss Williams.

MARI M.: Na, dim diolch. 'Rwi wedi cal itha digon. (MRS. DAVIES, ADELINA a JIM *yn mynd ymlaen gyda'u te*. Seibiant hir a lledchwith, a phob un *yn edrych yn druenus*).

JIM: I fynd nol at y busnes yna eto, Auntie Mary, odych chi'n cofio'ch siarad a mam y Nadolig dwetha?

MRS. DAVIES: Pwy siarad? Fues i'n siarad a'ch mam y Nadolig dwetha?

JIM (*mewn tymer*): Wel, do, wrth gwrs, pan wedsoch wrth mam y bysech yn rhoi'r canpunt 'na adawodd 'newyrth i fi, pan oe'n i'n meddwl am briodi.

MRS. DAVIES (*gyda phwyslais, yn edrych ar FARI M.*): Do, ond ar yr amod y byse ni yn lico'r ferch!

JIM (*mewn tymer*): Mari Myfanwy yw y ferch anwyla yn y byd—yn gwitho'n galed—yn gallu canu fel yr cos—ac mae lot o gommon sense gyda hi—pring gan rai y dyddie yma. (*Yn edrych ar ADELINA*). A mae'n dda iawn i'w hen dad, a rwi'n meddwl bod chi'n angharedig iawn iddi, Modryb Mary Jane. Mae'n ddigon da i'r Prince of Wales i hunan. Beth sydd gyda chi yn i herbyn hi?

MRS. DAVIES (*yn ddigllon iawn*): Llawer o bethe. Yn un peth, ma'n ferch i was ffarm, ac yn dod o'r lle ofnadw 'na, Cwm Llyffannod. All hi ddim siarad Sysneg a dall hi ddim behafio 'i hunan mewn cwmpni, a mae wedi spwylo'r carped gostodd ddeg punt i'ch Uncle Richard druan y flwyddyn cyn iddo farw.

MARI M. (*yn codi*): Rwi'n credu y dyle ni fynd nawr

(*gyda theimlad*). Ryn ni wedi aros digon hir lle nad oes dim o'n ishe ni. Ag os gwas ffarm oedd y nhad, oedd e'n onest ta pun, a lawer mwy respectable na Daniel Trwyn Coch (MRS. DAVIES *yn codi mewntymer*). Cadwch ych hen ganpunt. Aliwn ni neud yn brion hebddo, a byw yn gyfforddus. Dewch, Jim!
(*Swn car modur i'w glywed odciallan*).

MRS. DAVIES (*yn gynhyrfus*): Dyna Mr. Price! Sefwch, sefwch! Pidwch a mynd nawr. Shteddwch lawr, shteddwch lawr. Adelina, rhedwch i agor y drws yn gloi.

(ADELINA *yn rhedeg allan*).

MRS. DAVIES (*yn taro'r cwpanau te yn eu dwylo ac yn eu gwrthio yn ol i'w llefydd*): Shteddwch lawr, shteddwch lawr! Gewch fynd ymhen cwpl o fynude. Fydde'n edrych yn od os byse fe'n meddwl bod ni'n ffrio.

(*Eisteddant i lawr wedi eu syfrdanu*. Daw SAM PRICE *i mewn a dilynir ef gan ADELINA*. Dyn deugain oed ydyw, yn gwisgo dillad o liw tarawiadol, gwasgod wen, spats, a modrwy).

SAM PRICE (*mewn llais uchel soniarus*): Shwd ych chi, Mrs. Davies. Dyma fi wedi dod a'r duet i gal practice.

MRS. DAVIES (*yn ffwdanus*): Rwi'n falch iawn i'ch gweld chi, Mr. Price. Dyma fy nai, James, a Miss Williams. Shteddwch lawr yma ar bwys y tan. Mae'n oer reit heddy.

(*Nodia SAM PRICE ar JIM, ac ysgwyd law gyda MARI M.*).

SAM PRICE: Rwi'n nabod Miss Mari Myfanwy yn dda iawn. Shwd ych chi?
(*Eistedda ar y sofa yn ymyl MARI M., a gwna lygaid arni*).

MRS. DAVIES: Ddewch chi ddim ar bwys y tan? Adelina, dodwch de ffresh yn y tepot, a dewch ar tea-cakes nethoch chi'r bore 'ma lan.

(ADELINA *yn mynd allan*).

SAM PRICE: Wel, Mrs. Davies, mae dipyn o amser er pun fues i yma o'r blan. Rwi wedi bod yn Llan-drindod er pan weles i chi ddwetha. Rown i yno am bythewnos, yn aros yn y Gwalia, a geso i amser splenddid. Digon o ferched ifanc neis, Miss Mari Myfanwy, ond dim un mor neis a chi!

MARI M. (*yn gwneud llygaid arno*): Cerwch ona, Mr. Price! Rych chi'n wastod yn rhy ffond o jocan!

SAM PRICE: Dim joke yw e, rwi'n siwr.
(*Edrych JIM yn anesmwyth*. Ceisia gael sylw MARI M.).

MRS. DAVIES: Rwi'n ffond iawn o aros yn y Gwalia yn hunan. Rych chi'n cwrdd a shwd bobl genteel yna. Pan oedd Adelina a fi yn aros yna y llynedd, rodd yna dri M.P., doi stockbroker cyfoethog iawn o Lerpwl, deg o weinidogion, a'r Rowlandses o North Wales. Dyna pam aethon ni yna. Odi chi'n nabod Mr. Noah Rowlands, J.P., Mr. Price?

SAM PRICE: Na, 'dwi ddim yn cofio'r enw.

MRS. DAVIES: Wel, mae e'n adnabyddus iawn yn North Wales. Mae e'n ffrynd mawr i Lloyd George. Mae nhw'n meddwl y byd o Adelina. Oedd hi'n aros yna ddwy flynedd yn ol.

SAM PRICE: O, yn wir!

MRS. DAVIES: Mae Adelina yn hir iawn. Chi'n gwbod, Mr. Price, mae Blodwen, y forwyn, yn y gwely a'r ddanodd. Mae Adelina yn gorfod paratoi'r te. Mae'n lwcus bod hi wedi arfer a gwaith ty. Mae'n werth y byd. Wi ddim yn gwbod beth fydde ni'n wneud hebddi.

SAM PRICE (*yn ddidaro*): Fydd y dyn gaiff hi yn lwcus!

(*Daw ADELINA i mewn gyda'r te, a rhydd ef ar y bwrdd*).

MRS. DAVIES: Dyma'r te. Adelina, powrwrch ddishgled mas i Mr. Price.

ADELINA (*yn ceisio ennill edmygedd*): Siwgr a
llaeth, Mr. Price?

SAM PRICE: Thank you. Tri lwmp os gwelwch yn
dda. (*Yn troi at FARI M.*). Rwi'n moin llawer o
bethe melys achos wi mor sur yn hunan!

MARI M. (*yn chwërthin*): O nacych, Mr. Price.
Ych chi'n ddigon melys i fi, ta beth.

MRS. DAVIES: Fynnwch chi tea-cake, Mr. Price?
Fe wnath Adelina y rhai hyn i hunan achos o'dd hi
yn gwbod ych bod chi yn i lico nhw.

SAM PRICE (*yn foesgar*): Yr oedd hynny yn neis
iaawn ynddi. (*Daw ADELINA a'r plat tea-cakes a saif
o'i flaen*). Nawr, Miss Mari Myfanwy, raid i chi yn
helpu i i ddewis pishin neis.

(*Cymerant arnynt edrych at y plât, gyda'u pennau
yn agos iawn at ei gilydd*).

SAM PRICE: Dyna bishin mawr neis yr olwg!

MARI M.: O, dyna un greedy ych chi! Chewch
chi ddim o hwnna. Ble ma'ch manners chi? Raid i
chi gymryd yr ucha.

(*Chwarddant uwchben y plat. Mae ADELINA yn
cipio'r plat i ffwrdd, ac yn chwyrlïo yn ol at y
bwrdd*).

MRS. DAVIES: Mr. Price, odi'ch te chi'n ddigon
melys? Adelina, rhowch ragor o laeth i Mr. Price.
Rwi'n siwr nag os dim digon yn i de fe.

SAM PRICE: Rwi'n berffeth hapus, thank you.

(*Yn ail ddechreu siarad a MARI M., MRS. DAVIES
yn edrych yn ffyrnig ac yn ceisio tynnu sylw JIM
at FARI M.*)

MRS. DAVIES (*yn uchel*): Gesoch chi dywydd ffein
yn Llandrindod, Mr. Price? Gesoch chi lawer o
golf?

JIM (*yn codi ac yn cuchio*): Rwi'n meddwl bydde'n
well i ni fynd, Modryb Mary Jane.

MRS. DAVIES (*yn awchio am gael dywedyd*): Wel,
'dos dim llawer o amser cyn y train.

JIM: Dewch ymlan, Mari Myfanwy.

SAM PRICE: Mynd nawr? A finne ddim ond just
wedi dod? Na, na, Miss Mari Myfanwy, ych chi
ddim yn mynd i redeg bant nawr. Yn ni ddim yn
mynd i'ch gadel chi, o'dyn ni, Mrs. Davies?

MRS. DAVIES: Mae nhw'n siwr o golli y 6-15, a
dyna'r un dwetha.

SAM PRICE: 'Dos dim ods. Fe gewch ride nol yn
y nghar i.

MARI M.: O, diolch yn fawr, Mr. Price. Dyna
neis! Shteddwoch lawr, Jim.

(*JIM yn eistedd i lawr ac yn cuchio mwy. Llygaid*

MRS. DAVIES yn serennu gan ffyrnigrwydd).

MRS. DAVIES (*yn nodio at y lle gwag ar y sofa*):
Shteddwoch lawr, Adelina.

(*ADELINA yn eistedd i lawr yn ufudd*).

SAM PRICE: "A rose between two thorns" ys dywed
y Sais.

MARI M. (*yn ei slapio yn chwareus*): Cerwch ona,
Mr. Price, yn galw draenen arno i. (*Yn achosi iddo
ollwng ei lwy*). O, Mr. Price, mindwch na gollwch
chi 'ch te ar y carped! Edrychwch beth netho i (*yn
pwyntio at y llawr*).

SAM PRICE: O, rydyn ni'n doi yn yr un boc. (*Yn
garuaidd*) Rwi'n lico bod yn yr un boc a chwi.

MRS. DAVIES (*yn uchel*): O, ry ni'n edrych ymlan
i'ch clywed chi'n canu yn y concert y mish nesa.
Odi chi wedi dod a'ch copy gyda chi, Mr. Price?
Mae Adelina wdi bod yn practiso bob dydd.

ADELINA: Rwi'n meddwl bod e'n bert iawn, ond
wi ddim yn gwbod e eto.

MRS. DAVIES: Wel, well i chi bractiso nawr.
Mae'r piano yn barod, a liesen i i'ch clywed chi'n
fawr Mr. Price.

SAM PRICE: Mae arna i ofan na alla i ddim canu heno, Mrs. Davies. Y ffaith amdani yw, bod annwyd mawr arna'i (*Yn pesychu ac yn clirio ei wddf*). Wyddoch chi beth rwi wedi bod yn meddwl am ofyn i Miss Adelina os ffindith hi rwun arall i ganu gyda hi yn y concert. Dyna John Morgan, nawr. Mae e'n canu lawer yn well na fi. 'Dwi ddim digon da i ganu gyda chi, a pheth arall, rwi'n meddwl y bydda'i bant yn Llunden ar fusnes y pryd hynny.

MRS. DAVIES: Rwi'n siwr bod llais beautiful gyda chi, Mr. Price. Rwi'n wastod yn gweud bod e'n gwmws fel llais Ben Davies.

ADELINA: O, fydda'i ddim yn lico canu gyda Mr. Morgan hanner gyment a gyda chi. Fydd pawb yn disappointed iawn.

SAM PRICE: Na, wi ddim yn meddwl. (*Yn troi at FARI M.*) Odi chi'n gallu canu, Miss Mari Myfanwy?

MARI M.: Odw, dipyn bach, ond nid o Operas Italian. Mae caneuon Cymraeg yn fwy yn yn line i. (*Pn edrych ar ei gwpan.*) O, drychwch Mr. Price, mae yna ddyn diarth yn ych cwpan chi. Pwy yn e, wish?

SAM PRICE: Nawr, Miss Mari Myfanwy, pidwch chi a gadel y gath mas o'r cwdyn.

MARI M.: Newch hast i gwpla'ch te ichi glywed y'ch ffortiwn.

SAM PRICE (*yn gorffen yn frysio*): Pryd wi'n mynd i briodi? (*yn chwerrthin*).

MARI M. (*yn edrych i mewn i'w gwpan*): O dim am amser mawr. Wi'n gweld pum amser yn y cwpan hyn. Alle i ddim gweud pun ai pum mlynedd ne pum mish yw e. Neu falle taw pum wythnos. Ond mae ofan arna i taw pum mlynedd. Ma nhw'n dishgwyl yn hir iawn, ta beth. Druan ohonoch chi, Mr. Price.

SAM PRICE: O, rwi'n itha hapus fel hyn. Fydd y merched ifenc ddim yn edrych arna i wedyn, ych chi'n gweld.

MARI M. (*o hyd yn archwilio ei gwpan*): Ond mae yna un fenyw sydd yn eglur iawn. Dyna hi! Mae hi'n dal—yn ole iawn—ac yn dene—ŷch chi'n cofio am rywun fel yna?—un yn siarad lot—allwch chi ddim cal gair mewn.

.....(*Disgrifia rywun hollol wahanol i ADELINA*).

SAM PRICE: Cerwch ona, Miss Mari Myfanwy. Mae rywun wedi bod yn gweud fy hanes i wrthoch chi. Ga i weud pwy wi'n weld. (*Yn cymryd y gwpan ac yn edrych i mewn iddi, ac yn disgrifio MARI M.*). Rwi'n gweld merch—'dyw hi ddim yn dal—dyw hi ddim yn ole—a mae hi'n canu fel yr eos—a mae i henw yn dechre a M!

MARI M. (*yn torri ar ei draws*): O, dyna ddyn od ych chi, Mr. Price (*yn chwerrthin*). Shwd ych chi'n gallu gweud ei bod hi'n gallu canu?

SAM PRICE: A. dyna secret mawr. Wi inne'n gwobod shwd i weud ffortiwn. Ddangosodd un o'r merched neis odd yn aros yn y Gwalia i fi.

MARI M. (*yn cymeryd ei gwpan yn ol ac yn mynd ymlen*): Raid i chi fod yn ofalus iawn, Mr. Price. Mae merch dywyll yn byw dim ond dau gam oddi-wrthoch—a dau gam byrr iawn yn nhw hefyd—a wnaiff hi ddim da i chi. Raid i chi gwylio hi.

(*Siaradant ymlaen gyda'i gilydd a chwarrddant gyda'u pennau yn agos at ei gilydd. Edrych MRS. DAVIES a JIM arnynt yn anobeithiol o ffyrnig.*).

MRS. DAVIES (*wrth Jim*): Mae hi'n anghofio bod hi'n engaged a chi,, Jim.

JIM (*mewn ystum anobeithiol*): Dyn a wyr beth mae'n feddwl!

SAM PRICE (*yn chwerrthin yn uchel*): Splendid. Dyna'r un oreu rwi wedi glywed ers amser! Gadewch i ni fynd round gyda'n gilydd ar hyd y ffeirie i weud ffortiwn!

MRS. DAVIES (*yn uchel ac yn eglur*): Fydd dim llawer o amser, Mr. Price, achos mae Mari Myfanwy yn mynd i briodi fy nai, Jim, cyn bo hir.

SAM PRICE (*wedi ei daro a syndod*): O, yn wir?

MARI M.: Ond allwn ni ddim. 'Dos dim digon o arian gyda ni. A dyna'ch mam hefyd, Jim.

MRS. DAVIES (*yn awyddus*): Ond falle allwn i fanagio hynny rwyffordd.

MARI M.: Ych chi'n gweld, Mr. Price, odd chance da i Jim ddodi arian mewn Cinema, ond fydda ishe canpunt o leiaf. Dim pawb sydd yn gallu dod i llaw ar ganpunt y dyddie hyn, ie fe, Mr. Price.

SAM PRICE: Nag e, wir! Pam na ddewch chi gyda fi i'r Cinema ryw nosweth?

MARI M. (*yn gwneud llygaid*): Falle dwa i!

MRS. DAVIES (*wedi ymdrech fewnol galed*): Ych chi'n cofio, Jim, odd ych Uncle Richard yn wastod yn meddwl rhoi start i chi mewn busnes. Wel, mae wedi bod yn amser caled er pan fu e farw, a choste mawr arno i. Ond am ych bod wedi cal cynnig mor dda, ro i y canpunt i chi nawr.

JIM (*mewn petrusder, yn edrych ar FARI M.*): Diolch yn fawr, Modryb fach, diolch yn fawr.

MARI M. (*yn torri ar ei draws*): Ond f'n ni'n lawer rhy ifanc. 'Dyw Jim ond 22 a finne yn 21, a falle fyddwn ni wedi newid yn meddwl mhen wech mish, a ni'n doi wedi cwmpo mewn cariad a rywun arall erbyn y Nadolig nesa. Ond allen ni, Mr. Price?

SAM PRICE: Ryfedden i ddim.

MRS. DAVIES (*gyda phwyslais*): Yn rhy ifanc, wir! Na! Rwi'n meddwl y dylse pawb briodi'n ifanc.

MARI M. (*yn cymeryd arni betruso*): Ond falle gwrdda i rywun fydda i'n licio'n well. A pheth arall, mae pobl weithe yn anghofio'u haddewidion. Mae deryn mewn llaw yn werth doi mewn llwyn.

(*Mae MRS. DAVIES heb ddwedyd gair yn mynd at y bureau yn tynnu allan focs cadw arian, ac yn cyfri arian nodau yn gwneud y swm o £100. Daw a hwy i FARI M., gwithia hwynt i'w llaw.*)

MRS. DAVIES: Dyna!

MARI M. (*yn eu cyfri*): Ugen—deg-ar-hugen—m—m—Canpunt! Odi, mae'n all right, Jim. Wel, nawr, Modryb Mary Jane, mae'n amser i ni fynd. Beth yw hi o'r gloch?

JIM: Cwarter i wech.

MARI M.: O, mae digon o amser. Ddalwn y train yn rhwydd, wedi'r cwbl. Good-bye, Mr. Price.

SAM PRICE: Na, dim good-bye. Odi chi ddim yn dod nol yn y car 'da fi?

MARI M.: Na, dim heno, diolch. Falle gewn ni'r ride yna rywbyrd eto. (*Wrth JIM*). Dwedwch good-bye wrth Mr. Price, Jim. Fe ddylsech fod yn ddiolchgar iawn iddo fe (*wrth MRS. DAVIES*). Goodbye, Modryb Mary Jane. Mi ofynnwn i chi ddod i'r briodas. Goodbye, Adelina. (*Yn cymryd braich JIM*) Dere mlan, Jim bach. Chi ydi 'nghariad i, wedi'r cwbl, ond rown i wedi penderfynu cal y canpunt 'na!

(*Y ddau yn mynd allan.*)

LLEN.

